

THE COUNTRY CODE

Please respect the Anglesey landscape, and take note that cyclists are not permitted on public footpaths. Follow these simple guidelines when out walking:

- ENJOY THE COUNTRYSIDE AND RESPECT ITS LIFE AND WORK
- GUARD AGAINST ALL RISK OF FIRE
- FASTEN ALL GATES
- KEEP YOUR DOGS UNDER CLOSE CONTROL AND ON A LEAD WHERE THERE IS LIVESTOCK
- KEEP TO PUBLIC PATHS ACROSS FARMLAND
- USE GATES AND STILES TO CROSS FENCES, HEDGES & WALLS
- LEAVE LIVESTOCK, CROPS AND MACHINERY ALONE
- TAKE YOUR LITTER HOME
- HELP TO KEEP ALL WATER CLEAN
- PROTECT WILDLIFE, PLANTS AND TREES
- TAKE SPECIAL CARE ON COUNTRY ROADS
- MAKE NO UNNECESSARY NOISE


Y CÔD CEFN GWLAD

Parchwch dirwedd Ynys Môn, a sylwch na chaniateir defnyddio beiciau ar lwybrau cyhoeddus. Os gwelwch yn dda dilynwch y Rheolau Cefn Gwlad:

- MWYNHEWCH GEFN GWLAD A PHARCHWCH EI FYWYD A'I WAITH
- BYDDWCH AR EICH GWYLIADWRIAETH RHAG PERYGLON TÂN
- CAEWCH BOB CLWYD
- CADWCH EICH CŴN O DAN REOLAETH AGOS AC AR DENNYN LLE BOD DA BYW
- CADWCH AT LWYBRAU CYHOEDDUS AR DRAWS FFERMDIR
- DEFNYDDIWCW GLWYDI A CHAMFEYDD I GROESI FFENSYS, GWRYCHOEDD A WALIAU
- GADEWCH LONYDD I DDA BYW, CNYDAU A PHEIRIANWAITH
- EWCH Â'CH SBWRUEL GARTREF
- HELPWCH I GADW POB DŴR LÂN
- DIOGELWCH FYWYD GWYLLT, PLANHIGION A CHOED
- CYMERWCH OFAL ARBENNIG AR FFYRDD CEFN GWLAD
- PEIDIWCH Â GWNEUD SWN DIANGEN

© Mick Sharp

Lligwy Burial Chamber
Cromlech Lligwy



HOW TO GET THERE

BY CAR: Follow the A5025 to Moelfre. GALLGO: Turn right at Moelfre roundabout, then left by a shop before the road narrows into the village. Park in the public car park on your left. CADOG: Follow the A5025 to Bryn Refail. Turn right opposite the craft shop, then right again at a T-junction down to the car park. Alternatively park at The Pilot Boat Inn, located directly on the A5025, after Bryn Refail.

BY BUS: For all bus enquiries call 0870 608 2 608

SUT I GYRRAEDD YNO

GYDA CHAR: Dilynwch yr A5025 i Foelfre. GALLGO: Trowch i'r dde wrth gylchfan Moelfre, ac yna i'r chwith wrth siop cyn i'r ffordd mynd yn gulach. Parciwch yn y maes parcio cyhoeddus ar y chwith. CADOG: Dilynwch y A5025 i Bryn Refail. Trowch i'r dde gyferbyn â'r siop grefftau, ac yna i'r dde unwaith eto wrth gyffordd i lawr i'r maes parcio. Gallwch hefyd barcio yn nhafarn y 'Pilot Boat Inn', a leolir ar y A5025, ar ôl Bryn Refail.

GYDA BWS: Am holl ymholiadau busiau ffoniwch 0870 608 2 608

This is just one of a series of leaflets featuring circular walks on the Isle of Anglesey. Mae'r daflen yma yn un o nifer o dafenni am cylchdeithiau cerdded ar Ynys Môn. For more details please contact / am fwy o wybodaeth cysylltwch â:
Menter Môn, Llys Goferydd, Bryn Cefni Industrial Estate, Llangefni, Isle of Anglesey LL77 7XA, North Wales.
e-mail / e-bôst: angleseywalks@mentermon.com
website / ar y we: www.mentermon.com Tel / Ffôn: 01248 725 700

© Menter Môn 2004. Produced by Menter Môn. Designed by Rosie Frankland & W.O. Jones Printers. Path problems should be reported to: Highways & Technical Services Department, Anglesey County Council, Council Offices, Llangefni, LL77 7TW.

© Menter Môn 2004. Cynhyrwyd gan Menter Môn. Dylunwyd gan Rosie Frankland & Argraffwyr W.O. Jones. Cysylltwch gydag Adran Prifffordd a Gwasanaethau Technegol Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfa'r Sir, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7TW, os oes unrhyw broblem gyda'r llywybr.



MOELFRE - CADOG & GALLGO

CIRCULAR WALKS ON THE ISLE OF ANGLESEY

Named after the Celtic Saints



CYLCHDEITHIAU CERDDED AR YNYS MÔN

Wedi eu henwi ar ôl Seintiau Celtaidd

CADOG SH493 873

LLIGWY BEACH - BRYN REFAIL (Clockwise)

Take the coastal path northwards from the car park. At **'PORTH Y MŌR'** turn left up a field to join a track. Turn right along the lane. Shortly turn left up a field, over the hill. Pass a pond, then descend to come out on a lane by a house. Turn right, then right again through a kissing gate passing close to a caravan site. Follow the path bearing left down the hill to the main road. The **CELTIC CROSS** you can see is the Morris Brothers monument. Turn left up to **BRYNREFAIL**.



Ynys Môn County Council/Cyngor Sir Ynys Môn

BRYN REFAIL - BODAFON 'MOUNTAIN'

Turn right at Brynrefail, between the **CHAPEL** and **CRAFT SHOP**. Very shortly turn right again into a small field. After a stone stile, cross the fields, pass by a gateway to join a wide path. At a stream bear right, uphill over a number of ladder stiles. Pass through an area of gorse, over a bridge and through a large field heading towards **BODAFON**. You will come out by some houses at **TYN Y MYNYDD**. At a junction in the paths take the way-marked path straight ahead. After passing around the base to the far side of **BODAFON 'MOUNTAIN'** a well-worn path leads you to the summit.

BODAFON 'MOUNTAIN' - PILOT BOAT INN

Re-trace your steps back to the junction in the paths at **TYN Y MYNYDD**. Turn left before the **WHITE COTTAGE** down the hill. Bear right after a number of fields, and with a spectacular view of **DULAS BAY** proceed down the hill. After a steep section into a valley you will pass the ruined **'NANT Y SEBON'**. Bear right and pass through a marshy area. Then zig-zag left, then right, to follow a stream. Pass a house, go down a track, cross a field, to come out on the main road. Crossing with care, turn right and walk up to the **PILOT BOAT INN**.

PILOT BOAT INN - LLIGWY BEACH

Go over the stile by the **PILOT BOAT INN** and up the field. **PENTRE-EIRIANNELL** is on your left. Join a track, leading to a field. Pass a pond then follow the field boundary. Bear right after some gorse to come out on a lane. Turn left down a drive, following the signposts to the coastal path. You will come out at **TRAETH YR ORA**. Turn right and follow the coast back to **LLIGWY**.



CADOG SH493 873

TRAETH LLIGWY - BRYN REFAIL (Cyfeiriad clocwedd)

Cymerwch lwybr yr arfordir tua'r gogledd o'r maes parcio. Wrth **'PORTH Y MŌR'** trowch i'r chwith i fyny cae i ymuno â thrac. Trowch i'r dde ar hyd y lôn. Yn fuan trowch i'r chwith i fyny cae, dros y bryn. Ewch heibio pwll, ac yna ewch i lawr i groaedd lôn fach ger tŷ. Trowch i'r dde, ac yna i'r dde unwaith eto trwy giât fochyn a mynd heibio maes carafannau. Dilynwch y llwybr gan gadw i'r chwith i lawr yr allt i'r brif ffordd. Y **GROES CELTAIDD** y gellwch ei gweld yw colgoflôn y Morrisiaid. Trowch i'r chwith i fyny i **FRYN REFAIL**.

BRYN REFAIL - MYNYDD BODAFON


Trowch i'r dde ym **MRYN REFAIL**, rhwng y **CAPEL** a'r **SIOP GREFFTAU**. Yn fuan iawn trowch i'r dde unwaith eto i gae bach. Ar ôl camfa garreg croeswch y caeau, ewch heibio borth i ymuno â llwybr llydan. Wrth y nant cadwch i'r dde, i fyny'r allt dros nifer o gamfeydd. Ewch trwy lecy n o eithin, dros bont a thrwy gae mawr tua **BODAFON**. Fe ddewch i ychydig o dai yn **NHYN Y MYNYDD**. Wrth gyffordd yn y llwybrau cymerwch y llwybr sydd â chyfeirbyst yn syth yn eich blaen. Ar ôl mynd wrth ei godre i ochr bellaf **MYNYDD BODAFON** bydd llwybr yn eich arwain i'r copa.

MYNYDD BODAFON - Y 'PILOT BOAT INN'

Ewch yn eich ôl i'r gyffordd yn y llwybrau yn **NHYN Y MYNYDD**. Trowch i'r chwith cyn y bwtlyn gwyn ac i lawr yr allt. Cadwch i'r dde ar ôl nifer o gaeau, a chyda golygfa fendigedig o **FAE DULAS** ewch ymlaen i lawr yr allt. Ar ôl darn serth i lawr i ddyffryn byddwch yn mynd heibio adfa **'NANT Y SEBON'**. Cadwch i'r dde ac ewch trwy lecy n corslyd. Ewch igam-ogam i'r chwith, ac yna i'r dde i ddilyn nant. Ewch heibio tŷ, i lawr llwybrau a chroeswch gae i gyrraedd y brif ffordd. Gan groesi'n ofalus, trowch i'r dde a cherdwch i fyny tuag at dafram y **'PILOT BOAT INN'**.

Y 'PILOT BOAT INN' - TRAETH LLIGWY

Ewch dros y gamfa wrth dafram y **'PILOT BOAT INN'** ac i fyny'r cae. Y mae **PENTRE-EIRIANNELL** ar eich ochr chwith. Ymunwch â llwybr, sy'n arwain at gae. Ewch heibio pwll ac yna dilynwch derfyn y cae. Cadwch i'r dde ar ôl ychydig o eithin i ddod i ffordd. Trowch i'r chwith i lawr lôn fach, gan ddilyn yr arwyddion i'r llwybr arfordirol. Fe ddewch i Draeth yr Ora. Trowch i'r dde a dilynwch yr arfordir yn ôl i **LLIGWY**.



Ynys Môn County Council/Cyngor Sir Ynys Môn

Mynydd Bodafon 'Mountain'



FOLLOW THE WAY-MARKERS DILYNWCH Y CYFEIRBYST

GALLGO SH512 863

MOELFRE - DIN LLIGWY (Clockwise direction)

Pass through the pedestrian gates out of the car park and turn left up the road. Turn left by a school and follow the lane, turning right by **TYN COED**. Soon bear left into a field, over the hill, and follow the river down to a lane. Turn right. Shortly on your left you will pass **LLIGWY BURIAL CHAMBER, DIN LLIGWY**, and the ruins of **LLIGWY CHAPEL**.

DIN LLIGWY - LLIGWY BEACH

Continue down the lane past Din Lligwy to a x-roads. Go straight across at the x-roads and down to **LLIGWY BEACH**.

LLIGWY BEACH - MOELFRE

From Lligwy beach follow the **COASTAL PATH** eastwards. The route is easy to follow. You will pass a memorial to the **ROYAL CHARTER** along the way. Continuing along the coast you will come out at **PORTH YR YNYS**. Carry on along the coast, then follow a path to the **LIFEBOAT STATION**. Keep following the coastal path, past **MOELFRE SEAWATCH CENTRE** until you come out on the road. Turn left along the road (with care) and walk past **PORTH MOELFRE**. Turn right up a path by **ANN'S PANTRY** next to a stream. You will come out on the road opposite the car park where you started.

GALLGO SH512 863

MOELFRE - DIN LLIGWY (Cyfeiriad clocwedd)

Ewch drwy'r giatau fach o'r maes parcio, trowch i'r chwith ac ewch i fyny'r ffordd. Trowch i'r chwith wrth yr ysgol a dilynwch y lôn honno, a throi i'r dde wrth **TYN COED**. Yn fuan ewch i'r chwith i fewn i gae, dros y bryn, a dilynwch yr afon i lawr i lôn fach. Trowch i'r dde. Yn fuan ar y chwith ichi byddwch yn mynd heibio **CROMLECH LLIGWY, DIN LLIGWY**, ac adfeilion **HEN GAPEL LLIGWY**.

DIN LLIGWY - TRAETH LLIGWY

Ewch yn eich blaen i lawr y ffordd heibio **DIN LLIGWY** i groesffordd. Ewch yn syth ar draws y groesffordd ac i lawr i **DRAETH LLIGWY**.

TRAETH LLIGWY - MOELFRE

O draeth Llŷgwy dilynwch y llwybr arfordirol tua'r dwyrain. Mae'r llwybr yn un hawdd i'w ddilyn. Ar eich ffordd byddwch yn mynd heibio cofeb i'r **'ROYAL CHARTER'**. Trwy fynd ymlaen ar hyd yr arfordir fe ddewch i **BORTH YR YNYS**. Ewch yn eich blaen ar hyd yr arfordir, gan ddilyn y llwybr i **ORSAF Y BAD ACHUB**. Parhewch i ddilyn y llwybr arfordirol, heibio **GWYLFAN MOELFRE** hyd nes y cyrraeddwch ffordd. Trowch i'r chwith ar hyd y ffordd (gyda gofal) a cherdwch heibio **PORTH MOELFRE**. Trowch i'r dde i fyny llwybr ger **PANTRI ANN** wrth ochr nant. Fe ddewch allan gyferbyn â'r maes parcio ble y cychwynnoch.



Ynys Môn County Council/Cyngor Sir Ynys Môn

Originally reproduced from the 1926 O.S. Map
Atgynhychwyd yn wreiddiol o fap 1926 yr O.S.
MC027587


ST. CADOG & ST. GALLGO

Both saints probably lived in the 6th century. Cadog, an extensive traveller, is dedicated at a site near Dulas, though little remains of the settlement. Gallgo came to Anglesey with his sister Peithian and brother Eugrad, who has a dedication in the neighbouring parish. St. Gallgo's Church, located next to the A5025, dates from the 15th century and Gallgo's holy well, 'Ffynnon Gallgo', is located nearby.

THE WALKS

	CADOG	GALLGO
Start/Finish Point:	Lligwy beach/ Pilot Boat Inn	Moelfre car park
Time needed (Hours):	3½	2
Walk Length (Miles):	7½	4
Grade of Walk:	Moderate	Easy
Maps: OS Pathfinder 735, OS Explorer 263		

SERVICES: Toilets and refreshments are available in season at Lligwy beach car parks. **Cadog's Walk:** The Pilot Boat Inn, a craft shop, phone and garden centre in the village of Bryn Refail. **Gallgo's Walk:** Moelfre has a wide range of facilities.



St. Gallgo's Church
Eglwys Sant Gallgo

J.O. Hughes

SANT CADOG A SANT GALLGO

Mae'n debygol y bu'r ddau sant yn byw yn y 6ed ganrif. Fe gysegrwyd Cadog, oedd yn deithiwr helaeth, mewn safle ger Dulas, ond ychydig sydd ar ôl o'r anheddiad hwn. Daeth Gallgo i Ynys Môn gyda'i chwaer Peithian a'i frawd Eugrad, sydd â chysegr yn y plwyf nesaf. Mae Eglwys Sant Gallgo, a leolir wrth ochr yr A5025, yn dyddio o'r 15fed ganrif a leolir 'Ffynnon Gallgo' gerllaw.

Y TEITHIAU

	CADOG	GALLGO
Man Cychwyn/Gorffen:	Traeth Lligwy/ 'Pilot Boat Inn'	Maes parcio Moelfre
Amser (Oriau):	3½	2
Hyd (Milliroedd):	7½	4
Graddfa:	Cymedrol	Hawdd
Mapiau: OS Pathfinder 735, OS Explorer 263		

GWASANAETHAU: Mae toiledau a lluniaeth ar gael yn dymhorol ym meysydd parcio traeth Lligwy. **Taith Cadog:** mae tafarn y 'Pilot Boat Inn', siop grefftau, ffôn a chanolfan garddio ym mhentref Bryn Refail. **Taith Gallgo:** mae amrediad eang o gyfeusterau ym Moelfre.

PLACES OF INTEREST

MOELFRE

The name Moelfre means 'treeless hill'. In 1859 the village witnessed the wrecking of the Royal Charter at Porth Helaeth on a return voyage from Australia. In all 434 lives were lost. A monument on the coast marks the site of the tragedy, and there is a memorial in the graveyard at St. Gallgo's church where many of the dead are buried. During the 1800s a lifeboat station was founded in Moelfre to help avoid such loss of life. The lifeboat station and the Moelfre Seawatch Centre may be visited on Gallgo's walk.

DIN LLIGWY & LLIGWY BURIAL CHAMBER

Lligwy burial chamber was erected around 2500- 2000BC. The tomb has a large stone covering a chamber dug into the rock. The site was excavated in 1909 and a number of remains were found together with items of pottery dating from the end of the Neolithic period. Din Lligwy consists of an enclosed hut group and evidence suggests that the present arrangement of buildings date from the Roman period, but excavations on site have revealed both earlier and later occupation.



Din Lligwy

©Mick Sharp

The view from Mynydd Bodafon / Yr olygfa o Fynydd Bodafon



©Mel Cottrell

BODAFON 'MOUNTAIN'

Although barely a mountain at 178 metres, the summit of Bodafon provides a spectacular view over Anglesey. The area, composed of some of the oldest rocks in Britain, is covered by heathland that provides a valuable refuge for wildlife. The area to the west of Bodafon has been associated with the druids and there are a number of hut circles south of the summit.

MORRIS BROTHERS MONUMENT

The Morris Brothers had a profound influence on Welsh literature and are famous in Welsh history. Lewis, Richard, William and John lived during the 18th century at Pentre-eiriannell, and 100s of their letters provide rich detail of life during these times. As well as poet, writer and map-maker, Lewis was a notable scholar, and William and Richard encouraged writers and scholars. Sadly John died young aboard the battleship 'Torbay'. The monument, a Celtic cross, is a dedication to the lives of these brothers.

LLEFYDD DIDDOROL

MOELFRE

Mae'r enw Moelfre yn golygu 'bryn heb goed'. Ym 1859 bu'r pentref yn dyst i ddryllio'r 'Royal Charter' ym Morth Helaeth ar ei mordaith ddychwelyd o Awstralia. Collwyd 434 o fywydau i gyd. Mae cofgolofn ar yr arfordir yn nodi safle'r drychineb, ac mae cofeb ym mynwent Eglwys

Sant Gallgo lle claddwyd nifer o'r meirw. Yn ystod yr 1800au sefydlwyd gorsaf y bad achub ym Moelfre i geisio osgoi'r fath golled bywydau eto. Gellir ymweld â'r orsaf hon a Gwylfan Moelfre ar daith Gallgo.

DIN LLIGWY A CHROMLECH LLIGWY

Codwyd Cromlech Lligwy tua 2500-2000CC. Mae gan y bedd hwn garreg fawr sy'n gorchuddio siambr a dyllwyd i mewn i'r graig. Cloddwyd y

safle ym 1909 a darganfyddwyd nifer o weddillion yno o ddiwedd y cyfnod Neolithig. Mae Din Lligwy yn cynnwys grŵp cytiau caeedig ac mae tystiolaeth yn awgrymu bod y drefn bresennol o adeiladau yn dyddio o'r cyfnod Rhufeinig, ond mae cloddiadau ar y safle yn dangos y bu annedd yno cyn ac ar ôl y cyfnod hwnnw.

MYNYDD BODAFON

Er prin iawn y gellir ei alw'n fynydd a hwnnw ddim ond yn 178 metr o uchder, mae golygfa fendigedig dros Ynys Môn o gopa Bodafon. Mae'r

mynydd hwn, sy'n cynnwys rhai o'r creigiau hynaf ym Mhrydain, wedi'i orchuddio â rhostir sy'n cynnig lloches werthfawr i fywyd gwylt. Cysylltwyd y llecyn sydd i'r gorllewin o Fodafon â'r derwyddon ac mae nifer o gytiau gwyddelod i'r de o'r copa.

COFGOLOFN Y MORRISIAID

Roedd dylanwad y Morrisiaid yn fawr ar lenyddiaeth Gymreig ac maen nhw'n enwog yn hanes Cymru. Roedd Lewis, Richard, William a John yn byw yn ystod yr 18fed ganrif ym Mhentre-eiriannell, ac mae cannoedd o'u llythrau yn cynnig cyfoeth o fanylion o fywyd yn y cyfnod hwnnw. Yn ogystal â bod yn fardd, yn llenor ac yn fapiwr, roedd Lewis yn ysgolhaig nodedig, ac roedd William a Richard yn noddi llenorion ac ysgolheigion. Yn anffodus bu farw John yn ifanc ar fwrdd y llong ryfel 'Torbay'. Mae'r goggolofn, sef croes Geltaidd, yn gysegr i fywyd y brodyr hyn.